Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant ar ddydd Mercher, Medi 27ain 2006 am 7.30 p.m.

Presennol: Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Ros Bellamy, Cyng Fran Murphy, Cyng Roy Davies, Cyng Pam Steane Price, Cyng Colin Jenkins, Cyng Edward Thomas,
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr. Des Davies (Swyddog Cyllid)

Cyn i'r cyfarfod ddechrau arwyddodd Mrs Dawn Wallace i Dderbyn y Swydd, a chymerodd ei lle fel Cynghorydd Tref. Croesawodd Cadeirydd y cyfarfod y Cyng Colin Jenkins hi i'r Cyngor.

Ymddiheuriadau Y Maer Cyng Hugh Towns, Dirprwy Faer Cyng Richard Wallace, Cyng Ieuan Gwyn

Materion yr Heddlu : Adroddodd PC Vernon Thomas am 11 o droseddau, ac mae 6 ohonynt wedi'u canfod. Cafwyd un ymosodiad, 1 bwrgleriaeth, 2 drosedd yn ymwneud â chyffuriau a 4 trosedd yn ymwneud â cherbydau modur, oedd yn ymwneud â dwyn bathodynnau ceir.
Mewn ymateb i gwestiynau gan Gynghorwyr, adroddodd PC Thomas fod car wedi'i roi ar dân wedi'r digwyddiad, bod 2 wedi'u harestio a bod trydydd yn cael ei ystyried.
Yn ystod mis Hydref bydd y Swyddogion Heddlu Cymunedol yn dechrau ar eu hyfforddiant.

Cof 66/ Medi/ 06 Cofnodion Blaenorol

Cymeradwywyd ac arwyddwyd Cofnodion o'r cyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Heol Cilgant ar ddydd Mercher, 27ain Gorffennaf, 2006 fel rhai cywir.
Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chymeradwywyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 13eg Medi, 2006 fel rhai cywir.
Cynigiwyd gan y Cyng Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng Fran Murphy. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chymeradwywyd Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 13eg Medi, 2006 fel rhai cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Pam Steane Price ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies a chymeradwywyd adnewyddu'r gwestywr ar y ffi flynyddol sefydlog. Roedd pawb o blaid.

Cof 67/ Medi / 06 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Adroddodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones fod y wyneb pob tywydd yn Ysgol Tregib wedi'i gymeradwyo ac mae'r gwaith yn barod i ddechrau. Roedd yn dymuno canmol y Cyngor ar gwblhau'r llwybr Treftadaeth a'i fod wedi derbyn llawer o sylwadau positif gan bobl leol. Awgrymodd y byddai o fantais i'r Cyngor anfon cynrychiolwyr i'r cyfarfodydd rhwydwaith Cymunedol. Cynhelir y nesaf yng Ngwynfe ar Fedi'r 21ain.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Ar y 5ed Hydref bydd yn cwrdd â Mr John McAvoy o adran rheoli traffig CSC er mwyn ystyried parcio ar hyd ochrau ffyrdd. Cytunwyd y dylai'r Maer a'r Dirprwy Faer fynd gydag ef.

Cof 68/ Medi/ 06 Materion yn Codi o Gyfarfodydd Blaenorol

Parthed: Cof 56/Medi/ 06 eitem 2. Nid oes ateb wedi'i dderbyn o ohebiaeth a anfonwyd at CSC mewn perthynas â chau Heol Rhosmaen. Cynigiwyd gan y Cyng Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy y dylid anfon llythyr i'r adran briffyrdd yn mynegi pryder ei bod wedi bod yn anghwrtais wrth beidio ag ateb. Roedd pawb o blaid.
Gofynnodd y Cyng Colin Jenkins i'r Cynghorydd Sir Ieuan Jones i fynd i'r afael â phryder y Cyngor ynghylch cŵn yn baeddu ym Mharc Penlan ac ar hyd lwybrau troed Bont y Brenin ac Ysgubor Abad.
Dywedodd y CS Jones y byddai'n cysylltu â Mr Paul Morris, Swyddog Yr Amgylchedd.
Mewn perthynas â'r datblygiadau yn Ysgol Tregib, roedd y Cynghorydd Edward Thomas yn siomedig nad yw pwll nofio newydd ar agenda CSC yn y dyfodol gweladwy. Cynigiwyd gan y Cyng Pam Steane Price ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater fod y Cyngor yn gofyn i'r Cynghorydd Edward Thomas fabwysiadu'r angen am bwll nofio fel prosiect. Roedd pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng Thomas.

Cof 69/ Medi / 06 Materion Ariannol.

1. Anfonebau i'w Talu

BT	£ 55.09
Fireworks International	£ 345.00
Fireworks International	£ 3,632.77
David Siggery (Taliad rhannol am Neuadd y Sir)	£ 21,011.17
Costau postio'r Clerc	£ 70.01
Swyddog Technegol (clo a lliain plastig)	£ 23.05

Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy y dylid eu talu. Eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cof 70 / Medi / Materion Cynllunio

1. Adroddiad o ymweliad safle mewn perthynas â chais E/13994 Adeiladau'r Banc. Does yna ddim wrthwynebiadau penodol i adeiladu'r eiddo. Fodd bynnag mae'n ymddangos fod yna fater cymhleth o ran mynediad, parcio, a pherchnogaeth tir. Hefyd nodwyd gan aelodau fod cynllunio ar gyfer parcio ceir yng ngwesty'r Cawdor wedi'i wrthod wrth ymyl y gwesty. Sylw i'w anfon i'r pwyllgor cynllunio i nodi nad yw'r Cyngor yn teimlo ei fod mewn sefyllfa i wneud sylw o ran cymeradwyo neu wrthod y cais.
2. Adeiladau'r Banc a datblygiad yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn pryderu am y rhan hon o'r Dref ac maent wedi gwahodd gwahanol asiantaethau i archwilio i'r posibiliadau o wella'r fynedfa a diogelwch i gerddwyr mewn ymweliad safle ar y 13eg Hydref.

Cof 71/ Medi/ 06 Cludiant.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Llythyr oddi wrth CSC yn hysbysu am gau Teras yr Abaty am bedair wythnos o'r 5ed Hydref er mwyn gweithio ar yr is orsaf Drydan. Nodwyd

Cof 72/ Medi / 06 Adroddiad y Maer

Roedd y Maer Cyng Hugh Towns wedi darparu rhestr ysgrifenedig o'r holl gyfarfodydd a digwyddiadau a fynychodd ar ran y Cyngor yn ystod y mis a aeth heibio. Bydd y rhain yn cael eu rhoi ar wefan y Cyngor.

Cof 73/ Medi/ 06 Y Prosiect Treftadaeth.

Daeth y Cyng Ros Bellamy ag adroddiad ysgrifenedig i'r cyfarfod ar y datblygiadau parthed y llwybr Treftadaeth.
Mae'r camgymeriadau a nodwyd gan Mr Hedd Ladd Lewis ar y byrddau gwybodaeth wedi'u cywiro gan Cambria, a byddant hwy yn talu am y gost o ail osod y byrddau dan sylw. Ymddiheurodd y Clerc am beidio ag ateb llythyr Mr Lewis. Gofynnodd y Clerc i faterion sy'n ymwneud â gohebiaeth gael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Gweithdrefnau. Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins bod cerdyn post safonol yn cael ei anfon fel cydnabyddiaeth o dderbyn gohebiaeth cyn gynted â phosibl. Eiliwyd hyn gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Cof 74/ Medi / 06 Prosiect yr Ardd Gymunedol.

Adroddodd y Cyng Fran Murphy fod y pwyllgor wedi cwrdd a'i fod wedi llunio brasluniau o amlinelliad posib yr ardal yn y dyfodol. Gofynnodd i aelodau ddarllen yr adroddiad ac adrodd yn ôl gyda'u barn yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn.

Cof 75 / Medi / 06 Adroddiad y Pwyllgor Goleuadau Nadolig

Adroddodd y Swyddog Technegol fod y Tendrau ar gyfer cyflenwi a gosod y goleuadau Nadolig i fynd allan dros yr ychydig wythnosau nesaf. Bydd y cytundebau yn cael eu rhannu, h.y. un cytundeb i gyflenwi coed Nadolig a'r llall i osod y goleuadau.

Cof 76 / Medi / 06 Is bwyllgor Cynigion Iechyd

Dosbarthodd y Cyng Charlotte Leadbeater gopïau o adroddiad cynhwysfawr a baratowyd ar ran y Cyngor. Diolchodd y Cyng Roy Davies am holl waith caled y Cyng Leadbeater. Eiliwyd hyn gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid. Gwahoddodd y Cyng Pam Steane Price y Cyng Leadbeater i annerch y Gymdeithas Gymunedol.

Cof 77/ Medi / 06 Adroddiad y Swyddog Technegol.
Adroddodd Mr Davies mai Rhagfyr y 1af fydd y dyddiad ar gyfer cynnau'r Goleuadau Nadolig.

Cof 78/ Medi / 06 Gohebiaeth i'w ystyried

1. LlCC – ateb oddi wrth Mr Chandler o'r adran Ffyrdd yn cynnig cwrdd â Chynghorwyr i drafod mesurau arafu traffig yn y Dref. Penderfynwyd y dylid sefydlu is grŵp a threfnu cyfarfod a hysbysu Cyngor Bro Dyffryn Cennen.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

2. Llythyr oddi wrth CSC yn hysbysu'r Cyngor o'r angen i docio coeden ar ystâd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Nodwyd.
3. CCB Un Llais Cymru ar 14eg Hydref. Y Maer yw'r cynrychiolydd.

Cof 79/ Medi / 06 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Adroddiad Cynllun Partneriaeth Lleol LlCC 2005-6
2. Adroddiad Blynyddol Menter Bro Dinefwr 2005-6
3. Ymgynghori ar Bolisi Gamblo Drafft CSC
4. Clerks & Councils Direct rhifyn 47
5. Rhaglen Cyfalaf Cymunedol Ffordd Weithgar o Fyw LlCC
6. Un Llais Cymru – Strategaeth Hyfforddi Cenedlaethol
7. Cyfeirlyfr o Berfformwyr ac Artistiaid Lleol
8. CCB FCFCG a Chylchlythyr
9. Cofnodion Gweithgor Tregib 22.6, 16.8.06

Mae pob un o'r rhain ar gael i Gynghorwyr yn y swyddfa.

Cof 80/ Medi/ 06 – Unrhyw fater arall sydd oherwydd amgylchiadau arbennig ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Cynigiwyd Rhagfyr 13eg fel yr unig gyfarfod i'w gynnal ym mis Rhagfyr. Roedd pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35 p.m.

.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk